COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 213

Amseru: Cyn gynted a phosib

Teitl: Fideo Llysgenhadon Ieuenctid yn rhannu profiadau pobl ifanc gyswllt Heddlu- Cwmni Cynhyrchu

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu

Crynodeb Gweithredol: Yn dilyn grŵp ffocws a gynhaliwyd trwy Fforwm Ieuenctid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, lle gwahoddwyd pobl ifanc o ardal Dyfed-Powys i rannu eu profiad o gyswllt yr heddlu, awgrymodd y Llysgenhadon Ieuenctid y dylai'r CHTh weithio gyda nhw er mwyn cynhyrchu fideo / ffilm fer a fyddai'n rhannu profiadau'r bobl ifanc o Gyswllt yr Heddlu

Bydd y fideo yn adnodd sydd ar gael i Swyddogion trwy becynnau hyfforddi Dysgu a Datblygu DPP, a bydd yn helpu i addysgu Swyddogion ynghylch sut y gall rhai ymddygiadau effeithio ar blant a phobl ifanc mewn sawl ffordd.

Nid oes gan y Swyddfa yr arbenigedd yn fewnol i ddatblygu cynhyrchiad fideo proffesiynol. Felly rydym yn ceisio eich cymeradwyaeth i ddod â chwmni cyfryngau allanol i mewn i weithio gyda'r Swyddfa, a'r Fforwm Ieuenctid, i gynhyrchu fideo proffesiynol ac effeithiol.

Darparodd Optimwm ddyfynbris o £1360 + TAW a manylion ynghylch sut y byddent yn mynd ati i gynhyrchu'r fideo. Ar ôl adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd, ceisir cymeradwyaeth i gynnig y gwaith o ddatblygu'r fideo i Optimwm.

Argymhelliad:
Ein bod yn cytundebu Optimwm i weithio gyda Fforwm Ieuenctid y CHTh, i gynhyrchu fideo proffesiynol ac effeithiol i'w ddefnyddio gan y Llu ochr yn ochr â'u pecynnau hyfforddi presennol; gan sicrhau llais i bobl ifanc.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad:01.04.21**